Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Tai ar gyfer Plant Anabl a Theuluoedd

Hysbysiad Hwylus | Mai 2012

## Cyflwyniad

Un o **saith amcan craidd** Llywodraeth Cymru wrth weithio â phlant yw y dylent gael **cartref diogel** a chymuned sy'n **cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol**. I blentyn anabl, fodd bynnag, gall ei gartref ddarparu'r **amgylchedd mwyaf cyfyngol** iddo ei brofi. Roedd un adroddiad yn amcangyfrif y caiff **naw allan o bob deg teulu** sydd â phlant anabl broblemau â thai[1]. Mae crynodeb o'r problemau a wynebir ganddynt, o'r polisïau tai perthnasol a'r grantiau sydd ar gael ar gyfer gwneud addasiadau i dai, yn yr Hysbysiad Hwylus hwn.

## Beth yw'r materion dan sylw?

Oherwydd datblygiadau meddygol a darparu gwasanaethau iechyd yn y gymuned **mae rhagor o blant sydd ag anghenion cymhleth** yn byw gyda'u teuluoedd bellach. Gall anghenion plant anabl, o ran tai, fod yn wahanol i anghenion oedolion anabl. Mae'n bosibl y bydd yr anghenion hynny'n **newid fel y bydd plant yn datblygu,** sy'n golygu bod angen **asesiad a chefnogaeth barhaus.** Gall gofalu am anghenion plentyn anabl ddod yn fwy a mwy anodd wrth iddo dyfu ac mae'n bosibl y bydd **goblygiadau o ran diogelwch** i'r plentyn a'i ofalwyr os byddant yn byw mewn eiddo sy'n anaddas.

Mae grantiau ar gael i ariannu gwelliannau, ond rhaid i awdurdodau lleol sicrhau y darperir yr ateb mwyaf **cost-effeithiol a phriodol** i ddiwallu anghenion plentyn. Rhaid ystyried gwneud **addasiadau mewnol** yn gyntaf bob amser, cyn y gellir cymeradwyo adeiladu estyniad i'r cartref. Mae'n bosibl y rhoddir **cyngor i deulu symud** pan na fydd modd darparu **mynediad addas** neu lle yr ystyrir bod **cyflwr yr eiddo**'n golygu bod gwneud addasiadau'n **anfforddiadwy neu'n anymarferol**.

Gall gwneud addasiadau i dai gael **effaith gadarnhaol ar iechyd a diogelwch** gofalwyr a phlant, e.e. drwy osod cyfarpar i gynorthwyo gyda chodi a symud y plentyn. Gellir gwneud addasiadau y tu allan i dŷ hefyd, fel darparu **lle diogel i chwarae yn yr awyr agored.**

## Beth yw polisïau Llywodraeth Cymru?

Mae'r **Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol** ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yn nodi **tri cham allweddol** o ran tai ar gyfer plant anabl[2]. Mae'n ofynnol bod awdurdodau lleol yn **darparu gwybodaeth glir** i deuluoedd a gofalwyr ynglŷn â pha **gymorth, cefnogaeth a grantiau** sydd ar gael. Mae un cam allweddol arall yn nodi

[1] Yr Adran Iechyd, ***Improving the Life Chances of Disabled People,*** (Saesneg yn unig) 20 Ionawr 2005 [fel ar 9 Mai 2012]
[2] Llywodraeth Cymru, **Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth** t49-50 [fel ar 8 Mai 2012]

y dylai awdurdodau lleol **gadw cofrestr o eiddo a gafodd addasiadau** fel bod modd dod o hyd i eiddo addas ar gyfer teuluoedd, os bydd angen iddynt symud. Mewn arolwg yn 2009[3] roedd deg awdurdod lleol yng Nghymru wedi datblygu **cofrestr tai hygyrch** o ryw fath, ac roedd wyth arall yn bwriadu cyflwyno cofrestr.

Mae **Safon Ansawdd Tai Cymru** yn ei gwneud yn ofynnol bod pob landlord tai cymdeithasol yn dod â'u stoc dai i lefel dderbyniol, a bod pob tŷ, cyhyd â phosibl, yn **diwallu gofynion penodol y teulu**, gan gynnwys yr aelodau anabl[4]. Rhaid i bob datblygiad tai a ariennir gan Lywodraeth Cymru ymgorffori **Safonau Cartrefi Gydol Oes**[5] yn yr annedd, os yn bosibl, fel **amod o gael yr arian**.

## Pa grantiau sydd ar gael i berchnogion tai?

Mae **Grant Cyfleusterau i'r Anabl** ar gael gan awdurdodau lleol i dalu am addasiadau i dai. Mae'n orfodol bod gan bawb hawl i'r grant, **yn amodol ar asesiad a chymeradwyaeth**[6]. Mwyafswm y grant sydd ar gael yng Nghymru oedd **£36,000** yn 2011-12. Nid oes **prawf modd ar gyfer rhieni plant anabl o dan 19 oed.** Mae gan awdurdodau lleol hefyd y **disgresiwn i dalu costau atodol** am waith mawr dros derfyn y mwyafswm, a gall hefyd **ddilyn llwybr carlam gyda cheisiadau am fân addasiadau** a thalu amdanynt heb ddefnyddio Grant Cyfleusterau i'r Anabl[7].

Gall **perchen-feddiannwyr** wneud cais am grant cyfleusterau i'r anabl gan eu cyngor lleol. Yn ogystal â rhieni plentyn, mae'n bosibl y bydd **perthnasau a gofalwyr maeth**[8] **sy'n gofalu am blentyn anabl** yn gymwys, os bydd y plentyn yn preswylio yn eu cartref yn llawn amser. Mae'n bosibl ystyried trefniadau cyd-rianta hefyd, yn ôl yr amgylchiadau unigol. Mae gofalwyr am blant anabl sy'n berchen ar ran o'r ecwiti yn eu heiddo o dan **gynllun rhan-berchnogaeth** hefyd yn gymwys i gael Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Ym mhob achos, rhaid i blant fyw yn y cyfeiriad am **bum blynedd o'r dyddiad cwblhau ardystiedig**.

Mae'r broses o wneud cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'i gymeradwyo yn golygu bod angen ymwneud â gwahanol adrannau'r cyngor. Rhaid i therapydd galwedigaethol **y gwasanaethau cymdeithasol** asesu unrhyw waith sy'n **'angenrheidiol a phriodol'** er mwyn **diwallu anghenion y plentyn** a **chynyddu ei annibyniaeth**. Rhaid i'r **adran grantiau tai** fod yn fodlon ei bod yn **'rhesymol ac yn ymarferol'** i gyflawni'r gwaith a argymhellir, o ystyried oed a chyflwr yr eiddo.

Rhaid i **ddatblygiadau tai preifat newydd** gydymffurfio â safonau penodol o ran hygyrchedd. Mae **Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu** yn ei gwneud yn ofynnol bod pob cartref newydd â mynediad sy'n ddiogel a chyfleus, a thoiled ar y lefel mynediad, a switsys a socedi trydanol o fewn cyrraedd rhwydd. Dylai unrhyw addasiadau pellach fod yn **llai drud i'w darparu** os bydd safonau Rhan M wedi'u cyrraedd.

---

[3] Anabledd Cymru, ***Tai Hygyrch, Chwilio am gartref hygyrch: Cofrestrau Tai Hygyrch yng Nghymru*** (Saesneg yn unig) [fel ar 9 Mai 2012]
[4] Llywodraeth Cymru, **Safon Ansawdd Tai Cymru: Arweiniad Diwygiedig i Landlordiaid Cymdeithasol ar Ddehongli a Chyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru** 8 Rhagfyr 2009 [fel ar 9 Mai 2012]
[5] Datblygwyd y Safonau Cartrefi Gydol Oes yn 90au'r ganrif ddiwethaf ac mae'n cynnwys un maen prawf cynllunio ar bymtheg y dylid eu hymgorffori i gartrefi newydd ac addasiadau i dai fel y bydd yn rhwyddach addasu tai i ddiwallu anghenion newidiol unigolion a theuluoedd, ar gamau gwahanol yn eu bywydau.
[6] ***Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996*** (Saesneg yn unig)
[7] ***Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002*** (Saesneg yn unig)
[8] Caiff y math o leoliad maethu a hyd y cyfnod maethu eu hystyried.


## Pa grantiau sydd ar gael i denantiaid?

Gall pobl sy'n byw mewn tai a ddarperir gan **awdurdodau lleol, landlordiaid tai cymdeithasol neu landlordiaid preifat** wneud cais am grant cyfleusterau i'r anabl. Fel arfer caiff addasiadau ar gyfer tenantiaid landlordiaid tai cymdeithasol eu hariannu gan **Grant Addasiadau Ffisegol** Llyworaeth Cymru. Gall tenantiaid wneud cais i'w cyngor lleol am grant cyfleusterau i'r anabl, (neu, yn achos Grant Addasiadau Ffisegol, eu landlord), a fydd yn trefnu i wneud unrhyw waith sy'n ofynnol, yn dilyn asesiad gan **therapydd galwedigaethol.** Os ystyrir na fydd y gwaith yn rhesymol nac yn ymarferol, gellir **cynorthwyo'r tenant i symud** i gartref sy'n fwy addas.

Nid yw'r grant cyfleusterau i'r anabl na'r grant addasiadau ffisegol **ar gael** i bobl sy'n byw mewn **tai dros dro neu dai am y tymor byr.**

## Faint o amser a gymer y broses, o wneud cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl, hyd at gwblhau'r gwaith?

Cyhoeddwyd ffigurau ar hyd cyfartalog cyfnod y broses o gael grant cyfleusterau i'r anabl ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, a oedd **yn gwahaniaethu** rhwng y ceisiadau ar gyfer plant ac oedolion, am y tro cyntaf yn y flwyddyn 2010-11. Dengys y siart isod y gymhariaeth, ac mae'r ffigurau ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl ar gyfer plant ac oedolion i'w gweld yma:




Ffynhonnell: Infobase Cymru

**Nifer y dyddiau ar gyfer darparu** grant cyfleusterau i'r anabl, ar gyfartaledd, oedd **386 ar gyfer oedolion a 478 ar**

**gyfer plant.** Roedd rhagor o **amrywiaeth** rhwng awdurdodau lleol o ran cwblhau'r broses o wneud **ceisiadau ar gyfer plant** (272 o gymharu â 1,139 o ddyddiau) nag ar gyfer oedolion (199 o gymharu â 681 o ddyddiau). Roedd y mwyafrif o awdurdodau lleol yn cymryd rhagor o amser i gwblhau ceisiadau ar gyfer plant. **Ni ddarparwyd** unrhyw ffigurau ar gyfer Sir Gaerfyrddin na Sir Fynwy.

Gwelir bod y **trefniadau cydweithio** rhwng adrannau gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau tai yn **allweddol i ddarparu gwasanaeth o safon uchel,** ac awgrymodd un adroddiad y gall **cydgysylltu cyngor a chefnogaeth** rhwng yr adrannau hyn gyflymu'r broses[9]. Fodd bynnag nid yw'r dangosydd perfformiad ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl yn **cynnwys gwybodaeth am gamau gwahanol** yn y broses. Nid oes gwybodaeth am gyfran y **ceisiadau gofynion dwys** ym mhob awdurdod lleol chwaith. Gall ceisiadau am grantiau cyfleusterau i'r anabl amrywio o osod lifft grisiau, i adeiladu estyniad deulawr. Pan fydd gwaith mawr yn cael ei argymell, mae'n bosibl y bydd swyddogion o adrannau eraill yr awdurdod lleol fel **yr adran cynllunio a rheolaeth adeiladau** yn ymwneud â'r gwaith, a gall hynny ychwanegu llawer rhagor o amser at y broses o gymeradwyo'r cais, o bosibl.

## Beth fydd yn digwydd os gwrthodir cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl?

Mae **gofyn statudol ar i Gynghorau roi gwybod i rai sy'n gwneud cais** beth sy'n digwydd**, o fewn chwe mis i gyflwyno'r cais**. Os **gwrthodir** y cais, rhaid nodi'r rhesymau dros hynny, yn ysgrifenedig[10]. Mae gan bobl yr **hawl i apelio** gan ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r awdurdod lleol. Os bydd y sawl sy'n gwneud cais yn anfodlon ag ymateb yr awdurdod lleol, gall gysylltu ag **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.**

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am Dai ar gyfer Plant Anabl a Theuluoedd, cysylltwch â **Jonathan Baxter** (**Jonathan.Baxter@cymru.gov.uk**), yn y Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

- Cyswllt Teulu/Shelter Cymru, ***Profiadau teuluoedd o gael Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl: Astudiaeth ymchwil ar y cyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon,*** (Saesneg yn unig) Tachwedd 2008 [fel ar 9 Mai 2012]
- Sefydliad Joseph Rowntree, ***Tai ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd: Adnodd gwybodaeth,*** (Saesneg yn unig) 15 Mai 2009 [fel ar 9 Mai 2012]

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 12/0233 Lynette Hayward**

[9] Llywodraeth Cymru, ***Adolygiad o Addasiadau Tai gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - Cymru*** 1 Mawrth 2005 [fel ar 9 Mai 2012]
[10] ***Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996*** (Saesneg yn unig) S.34